

**COFNODION CYFARFOD ARFEROL CYNGOR TREF FFESTINIOG**  
**A GYNHALIWYD NOS IAU 12<sup>fed</sup> o HYDREF 2017**  
**YN SIAMBR Y CYNGOR AM 7.00 Y.H.**

CADEIRYDD: Cyngorydd Bedwyr Gwilym

YN BRESENNOL: Cyngorwyr: Erwyn Jones, Annwen Daniels, Mel Goch ap Meirion,  
Rory Francis Will G. Roberts, Mark Thomas a  
Glyn Daniels

9991/10/17 YMDDIHEURIADAU:  
Cyngorwyr: Mari Rees, Ronwen D Roberts ac Elin Roberts

9992/10/17 DERBYN DATGANIAD DERBYN SWYDD GAN GYNGHORYDD

PENDERFYNIAD: Arwyddwyd Datganiad Derbyn Swydd Cyngorydd gan y  
Cyngorydd Elin Roberts o flaen Clerc y Dref cyn dechrau'r cyfarfod.

9993/10/17 CROESAWU CYNGHORYDD NEWYDD

PENDERFYNIAD: Oherwydd profedigaeth deuluol ni fu'n bosib i'r Cadeirydd groesawu'r  
Cyngorydd Elin Roberts.

9994/10/17 DATGAN DIDDORDEB  
Cyngorydd Will G Roberts

10001/10/17 Cais Cynllunio NP5/59/177G

9995/10/17 MATERION BRYS

Materion a ddylai, ym marn y Cadeirydd, gael eu hystyried yn y cyfarfod fel rhai brys, yn  
unol ag Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972.

**Dalier Sylw trafodaeth yn unig, ni chaniateir unrhyw benderfyniad ar fater a godwyd yn y  
fan hyn ond ei raglennu ar gyfer y cyfarfod nesaf.**

Bu i'r Cadeirydd gydymdeimlo a theulu'r Cyngorydd Elin Roberts yn eu profedigaeth

Bu i'r Cyngor Tref dderbyn llythyr gan Y Dref Werdd yn diolch am y cyfraniad tuag at Bwrlwm  
Bro

PENDERFYNIAD: I dderbyn y wybodaeth.

9996/10/17 CWMNI BRO

Bu i Ceri Cunnington a Selwyn Williams, cynrychiolwyr o Gwmni Bro drafod eu  
cynlluniau i'r dyfodol. Mae Cwmni Bro yn bartneriaeth o'r sector cymunedol, cymdeithasol,  
cyhoeddus a preifat lleol, yn cyd-weithio a rhannu'r un weledigaeth, i adnabod, ysbrydoli a  
meithrin uchelgais yn nhrigolion y Fro ac yn hynny ysbrydoli adfywiad cymdeithasol ac  
economaidd.

Adeiladu ar y mentergarwch cymunedol a buddsoddiad gan y sector cyhoeddus a preifat sydd  
wedi bod yn ddiweddar i greu cynllun datblygu cymdeithasol ac economaidd wirioneddol  
cynaliadwy. Mae 12 Busnes Cymdeithasol yn bodoli yn yr ardal yn barod, does unrhyw le arall  
yng Nghymru gyda chymaint.

Un ateb i'r gymuned yw gwneud pethau drosom ein hunain a chyd weithio. Gobeithir dod a'r holl gynlluniau, mudiadau a busnesau sydd yn gweithredu er lles yr ardal at ei gilydd i gyd weithio fel na fydd pawb yn cystadlu am yr un grantiau. I ail greu cymuned drwy dechnoleg.

PENDERFYNIAD: I dderbyn y wybodaeth

9997/10/17 MATERION YR HEDDLU

Roedd y Swyddogion Delyth Edwards ac Emma Jones o'r Heddlu ynghyd a Sean Braithwaite a Jamie Atkinson, swyddogion o'r Heddlu Trafnidiaeth Brydeinig yn bresennol yn y cyfarfod.

Dywedwyd bod y swyddogion o'r Heddlu Trafnidiaeth Brydeinig yn arfer cwrdd gyda'r Heddlu yn unig. Mae problemau wedi bod yn y gorffennol gyda difrod yn cael ei wneud i gysgodfan Trenau Arriva Cymru. Cyn gynted a byddai'r gysgodfan yn cael ei drwsio byddai yn cael ei falu eto.

Mae cynlluniau ar y gweill i adeiladu cysgodfan newydd, hwyrach allan o garreg, ac i gyd weithio ag ysgolion lleol. Byddai disgyblion yn gallu diweddarau'r adeilad pob blwyddyn er mwyn ei gadw'n ffres.

I'r nod hwn gobeithir cynnal cyfarfod gyda'r gymuned. Bydd disgyblion Blwyddyn 6, h.y. blwyddyn olaf ysgol gynradd, yn cael eu targedu parthed atal llogi bwriadol.

Os bydd unrhyw un yn darganfod difrod ar yr orsaf trên yna gofynnir iddynt yrru nodyn bodyn at 61016 neu ffonio 0800405040.

Bydd angen cyd weithio i gael rhai ifanc i lanhau graffiti a chlirio llanast yn dilyn parti diwedd arholiadau Ysgol y Moelwyn ddechrau'r haf.

Mae'r Heddlu wedi sicrhau £300 tuag at y Noson Tan Gwyllt ger Caffi'r Llyn, Tanygrisiau.

PENDERFYNIAD: I dderbyn y wybodaeth a bu i'r Cynghorydd Mark Thomas gynnig cyd weithio gyda'r Heddlu Trafnidiaeth Brydeinig i greu cysgodfan newydd.

9998/10/17 DERBYN A CHADARNHAU COFNODION  
CYFARFOD ARFEROL 14<sup>eg</sup> MEDI 2017

PENDERFYNIAD: Derbyn a Chadarnhau'r Cofnodion gyda'r Cynghorydd Annwen Daniels yn cynnig a'r Cynghorydd Glyn Daniels yn eilio

9999/10/17 CYFRIFON I'W TALU

Cricieth Cleaning Ltd (Amrywiol)	£	1016.20	Rhif Siec.	002495
Catrin S Williams (Cyfieithydd)	£	105.88	Rhif Siec.	002496
Cyngor Gwynedd (Difa Pla)	£	48.00	Rhif Siec.	002497
Arian Parod	£	75.00	Rhif Siec.	002498
BT (Ffôn)	£	32.28	Debyd Uniongyrchol	
BT (band eang)	£	40.80	Debyd Uniongyrchol	
Antur Stiniog (Rhent)	£	276.00	Debyd Uniongyrchol	
Cyngor Gwynedd (Trethi)	£	205.00	Debyd Uniongyrchol	

PENDERFYNIAD: Rhoddwyd caniatâd i'r Clerc dalu'r uchod

10000/10/17 ARIAN I MEWN  
HMRC (Ad-daliad TAW)

£ 2477.21

10001/10/17 CEISIADAU CYNLLUNIO  
DATGAN DIDDORDEB  
**Cynghorydd Will G Roberts Cais Rhif NP5/59/177G**

Trafod ceisiadau sydd i law a derbyn penderfyniadau Awdurdodau Cynllunio

1. Cais Cynllunio Rhif NP5/59/177G  
Ymgeisydd First Hydro  
Gorsaf Bŵer Ffestiniog  
Tanygrisiau  
Blaenau Ffestiniog  
Newid defnydd o dir fel estyniad i safle orsaf bŵer presennol, codi adeilad storfa/gweithdy, creu llain galed ac ail leoli ffens diogelwch  
**Dim Gwrthwynebiad**

PENDERFYNIAD: Fel yr uchod

10002/10/17 PWYLLGORAU  
Ethol cynghorwyr i eistedd ar Bwyllgorau'r Cyngor Tref

PENDERFYNIAD: Etholwyd y Cynghorwyr Mark Thomas a Glyn Daniels ar bob un o Bwyllgorau'r Cyngor Tref.

10003/10/17 PWYLLGOR CYNLLUNIO  
Derbyn argymhellion Pwyllgor Cynllunio nos Iau 21<sup>ain</sup> Medi 2017

ARGYMHELLION PWYLLGOR CYNLLUNIO  
NOS IAU 21<sup>AIN</sup> MEDI 2017  
YN SIAMBR Y CYNGOR AM 7.00PM

Presennol:  
Cynghorwyr:  
Mel Goch ap Meirion - Cadeirydd  
Rory Francis  
Bedwyr Gwilym  
Erwyn Jones  
Will G Roberts  
*Mari Rees*  
*Mark Thomas*  
*Glyn Daniels*

Ymddiheuriad:  
Cynghorwyr:  
Ronwen D Roberts  
Annwen Daniels

**DATGAN DIDDORDEB**

**Cynghorydd Erwyn Jones Cais Cynllunio Rhif C17/0839/03/LL**  
**Cynghorydd Mel Goch ap Meirion Cais Cynllunio Rhif C17/0839/03/LL**

**Ethol Cadeirydd i'r Pwyllgor**

Etholwyd y Cynghorydd Mel Goch ap Meirion yn Gadeirydd y pwyllgor

1. Cais Cynllunio Rhif C17/0833/03/CR  
Ymgeisydd Mr & Mrs Clive Spencer  
Teiliau Mawr  
Cwm Teigl  
Blaenau Ffestiniog  
Addasiad i dŷ annedd yn cynnwys dymchwel porth blaen a chodi estyniad newydd, trosi'r stabil ynghlwm i ffurfio rhan o'r tŷ ac ail agor ac amnewid ffenestri  
**Dim Gwrthwynebiad**
2. Cais Cynllunio Rhif C17/0834/03/LL  
Ymgeisydd Mr & Mrs Clive Spencer  
Teiliau Mawr  
Cwm Teigl  
Blaenau Ffestiniog  
Addasiad i dŷ annedd yn cynnwys dymchwel porth blaen a chodi estyniad newydd, trosi'r stabil ynghlwm i ffurfio rhan o'r tŷ ac ail agor ac amnewid ffenestri  
**Dim Gwrthwynebiad**
3. Cais Cynllunio Rhif C17/0786/03/LL  
Ymgeisydd Mr & Mrs Clive Spencer  
Teiliau Mawr  
Cwm Teigl  
Blaenau Ffestiniog  
Addasu adeiladau allanol yn uned gwyliau  
**Rhaid cydweld bod angen am ddarpariaeth twristiaeth yng nghefn gwlad ac yn cynnig sylwadau canlynol-**
  1. Bydd cynnydd mawr mewn cludiant yn ôl a 'mlaen ar ffordd gul anaddas.
  2. Mae gan y Cyngor Tref bryderon ynglŷn â'r gwenoliaid sydd yn cael eu gwarchod gan ddeddfwriaeth Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981.
  3. Gall fod yn ddatblygiad gormodol mewn cwm distaw.
4. Cais Cynllunio Rhif C17/0781/03/CR  
Ymgeisydd Mr & Mrs Clive Spencer  
Teiliau Mawr  
Cwm Teigl  
Blaenau Ffestiniog  
Trosi adeiladau allanol yn uned gwyliau  
**Rhaid cydweld bod angen am ddarpariaeth twristiaeth yng nghefn gwlad ac yn cynnig sylwadau canlynol-**
  1. Bydd cynnydd mawr mewn cludiant yn ôl a 'mlaen ar ffordd gul anaddas.
  2. Mae gan y Cyngor Tref bryderon ynglŷn â'r gwenoliaid sydd yn cael eu gwarchod gan ddeddfwriaeth Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981.
  3. Gall fod yn ddatblygiad gormodol mewn cwm distaw.
5. Cais Cynllunio Rhif C17/0852/03/CR  
Ymgeisydd Mr & Mrs Clive Spencer  
Teiliau Mawr  
Cwm Teigl  
Blaenau Ffestiniog  
Trosi adeiladau allanol yn uned gwyliau

**Rhaid cydweld bod angen am ddarpariaeth twristiaeth yng nghefn gwlad ac yn cynnig sylwadau canlynol-**

1. Bydd cynnydd mawr mewn cludiant yn ôl a 'mlaen ar ffordd gul anaddas.
2. Mae gan y Cyngor Tref bryderon ynglŷn â'r gwenoliaid sydd yn cael eu gwarchod gan ddeddfwriaeth Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981.
3. Gall fod yn ddatblygiad gormodol mewn cwm distaw.

6. Cais Cynllunio Rhif C17/0853/03/LL  
Ymgeisydd Mr & Mrs Clive Spencer  
Teiliau Mawr  
Cwm Teigl  
Blaenau Ffestiniog  
Trosi adeiladau allanol yn uned gwyliau

**Rhaid cydweld bod angen am ddarpariaeth twristiaeth yng nghefn gwlad ac yn cynnig sylwadau canlynol-**

1. Bydd cynnydd mawr mewn cludiant yn ôl a 'mlaen ar ffordd gul anaddas.
2. Mae gan y Cyngor Tref bryderon ynglŷn â'r gwenoliaid sydd yn cael eu gwarchod gan ddeddfwriaeth Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981.
3. Gall fod yn ddatblygiad gormodol mewn cwm distaw.

7. Cais Cynllunio Rhif C17/0872/03/CR  
Ymgeisydd Mr & Mrs Clive Spencer  
Teiliau Mawr  
Cwm Teigl  
Blaenau Ffestiniog  
Trosi adeiladau allanol yn uned gwyliau

**Rhaid cydweld bod angen am ddarpariaeth twristiaeth yng nghefn gwlad ac yn cynnig sylwadau canlynol-**

1. Bydd cynnydd mawr mewn cludiant yn ôl a 'mlaen ar ffordd gul anaddas.
2. Mae gan y Cyngor Tref bryderon ynglŷn â'r gwenoliaid sydd yn cael eu gwarchod gan ddeddfwriaeth Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981.
3. Gall fod yn ddatblygiad gormodol mewn cwm distaw.

8. Cais Cynllunio Rhif C17/0873/03/LL  
Ymgeisydd Mr & Mrs Clive Spencer  
Teiliau Mawr  
Cwm Teigl  
Blaenau Ffestiniog  
Trosi adeiladau allanol yn uned gwyliau

**Rhaid cydweld bod angen am ddarpariaeth twristiaeth yng nghefn gwlad ac yn cynnig sylwadau canlynol-**

1. Bydd cynnydd mawr mewn cludiant yn ôl a 'mlaen ar ffordd gul anaddas.
2. Mae gan y Cyngor Tref bryderon ynglŷn â'r gwenoliaid sydd yn cael eu gwarchod gan ddeddfwriaeth Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981.
3. Gall fod yn ddatblygiad gormodol mewn cwm distaw.

9. **DATGAN DIDDORDEB**

**Cynghorydd Erwyn Jones**

**Cynghorydd Mel Goch ap Meirion**

Cais Cynllunio Rhif C17/0839/03/LL

Ymgeisydd Mr Huw Jones

Bronant

Heol Dorfil

Blaenau Ffestiniog

Cais ar gyfer newid defnydd rhan o weithdy presennol i dŷ preswyl

**Dim Gwrthwynebiad**

10. Cais Cynllunio Rhif NP5/59/131D

Ymgeisydd Mr Rh Williams

Cyn Depo Cyngor Gwynedd

Ffestiniog

Dymchwel adeilad presennol ac adeiladu 3 tŷ fforddiadwy

**Dim Gwrthwynebiad**

11. Cais Cynllunio Rhif C17/512/03/AM

Ymgeisydd Mr M Jones

Cyn Safle Capel Gwylfa

Manod

Blaenau Ffestiniog

Cais amlinellol gyda'r holl faterion wedi eu cadw'n ôl i godi 7 tŷ unllawr ar wahân i'r

henoed gyda datblygiadau cysylltiol

**Dim Gwrthwynebiad ond teimlir y byddai rhywfaint o waith carreg ar flaen y tai er mwyn gweddu a'r ardal.**

PENDERFYNIAD: I dderbyn yr argymhellion gyda'r Cynghorydd Will G Roberts yn cynnig a'r Cynghorydd Mel Goch ap Meirion yn eilio.

10004/10/17 PWYLLGOR MWYNDERAU

Derbyn argymhellion Pwyllgor Mwynderau nos Iau 21<sup>ain</sup> Medi 2017

ARGYMHELLION PWYLLGOR MWYNDERAU

NOS IAU 21<sup>ain</sup> MEDI 2017

YN SIAMBR Y CYNGOR AM 8.30 O'R GLOCH YR HWYR

Presennol:

Cynghorwyr:

Erwyn Jones - Cadeirydd

Mel Goch ap Meirion

Bedwyr Gwilym

Will G Roberts

*Mari Rees*

*Mark Thomas*

*Glyn Daniels*

Ymddiheuriad:

Cynghorydd:

Ronwen D Roberts

Rory Francis

Annwen Daniels

**DATGAN DIDDORDEB**

**Ni fu i unrhyw Gyngorydd Datgan Diddordeb**

## **Ethol Cadeirydd i'r Pwyllgor**

Bu i'r Cyngorydd Erwyn Jones gael ei ethol yn gadeirydd y Pwyllgor

- 1. Adroddiad Caeau Chwarae**  
Bu i'r Pwyllgor drafod adroddiadau misol y caeau chwarae  
**Argymhell:** I dderbyn yr adroddiadau
- 2. Arwyddion Dim Cŵn**  
Cafwyd trafodaeth ynglŷn â gosod arwyddion Dim Cŵn gyda logo'r Cyngor Tref arnynt ar y caeau chwarae i osgoi unrhyw amheuaeth ynglŷn â chyfrifoldebau cynnal a chadw.  
**Argymhell:** I aros am bris gan gwmni Designer Signs o Benygroes.
- 3. Cwrs Golff**  
Cafwyd trafodaeth ynglŷn â'r diffyg refeniw sydd wedi ei dderbyn er i'r cwrs golff gwirion gael ei osod. Cafwyd trafodaeth hefyd ynglŷn â'r problemau gyda'r caffi ddim ar agor yn rheolaidd e.e. dim toiledau ar gael, dim tocynnau cwrs golff gwirion yn cael eu gwerthu a dim codi sbwriel rheolaidd.  
**Argymhell:** I geisio cael cyfarfod gyda Carys Jones nos Fawrth 19<sup>eg</sup> o Hydref am 7.00 yn y Siambr i geisio unwaith eto datrys rhai o'r problemau.
- 4. RoSPA**  
Cafwyd gwybodaeth bod archwiliad RoSPA wedi ei drefnu ar gyfer pob cae chwarae dan ofal y Cyngor Tref ym mis Hydref ac wedyn yn flynyddol ym mis Mehefin.  
**Argymhell:** I dderbyn y wybodaeth
- 5. Arwydd Trefeillio a Rawson**  
Cafwyd gwybodaeth nad oes gan Gyngor Gwynedd unrhyw wrthwynebiad mewn egwyddor i osod arwyddion Trefeillio a Rawson ar yr A470 ar Fwlch y Gorddian a'r A496 ger Allt Goch. Bydd angen caniatâd Llywodraeth Cymru i osod arwydd ar yr A470 a bydd angen iddynt gytuno a dyluniad yr arwydd. Mae'r gost yn debygol o fod tua £1500 yr arwydd.  
**Argymhell:** I dderbyn y wybodaeth a symud ymlaen gyda dylunio arwydd
- 6. Goleuadau Nadolig**  
Cafwyd trafodaeth ynglŷn â phrisiau goleuadau Nadolig gan gwmni Lite.  
**Argymhell:** I beidio â phrynu goleuadau arbennig eleni oherwydd diffyg lle i'w cadw ond i symud ymlaen a phrynu mwy o oleuadau ar gyfer y coed yn Diffwys. I holi Cyngor Gwynedd ynglŷn â pholisi Llywodraeth Cymru eleni. Y llynedd gwrthwynebodd Llywodraeth Cymru wrth osod unrhyw oleuadau maent yn tybio i fod yn rhy drwm ar gyfer y colofnau golau stryd neu unrhyw olau a allai dynnu sylw'r gyrrwyr.
- 7. Anrhegion i Rawson**  
Cafwyd trafodaeth ynglŷn â phrynu anrhegion i'w cyflwyno i Rawson gan Elin Roberts, enillydd Ysgoloriaeth Patagonia'r Cyngor Tref pan fydd yn ymweld â Phatagonia mis Hydref.  
**Argymhell:** I brynu llwy caru, rhywbeth o frethyn Cymreig a llyfr i'w cyflwyno i'r llyfrgell yn Rawson.

## 8. Meysydd Parcio ganol y Dref

Yn dilyn cwynion gan fusnesau'r dref nad yw trigolion yn siopau'n lleol oherwydd y gost uchel o barcio yn Diffwys cafwyd trafodaeth ynglŷn â sut i ddatrys y broblem. Cafwyd gwybodaeth y byddai Cyngor Gwynedd yn ystyried eu cyfnewid a chael maes parcio Diffwys fel arhosiad byr a'r maes parcio tu ôl i Westy Tŷ Gorsaf fel arhosiad hir os cawn gais i wneud hyn.

**Argymhell:** I dderbyn y wybodaeth.

PENDERFYNIAD: I dderbyn yr argymhellion gyda'r Cyngorydd Will G Roberts yn cynnig a'r Cyngorydd Mel Goch ap Meirion yn eilio.

10005/10/17 PWYLLGOR ADNODDAU

Derbyn argymhellion Pwyllgor Adnoddau nos Iau 28<sup>ain</sup> Medi 2017

ARGYMHELLION PWYLLGOR ADNODDAU  
NOS IAU 28<sup>ain</sup> MEDI 2017  
YN SIAMBR Y CYNGOR AM 7.00 O'R GLOCH YR HWYR

Presennol:  
Cynghorwyr:  
Bedwyr Gwilym - Cadeirydd  
Rory Francis  
Erwyn Jones  
Ronwen D Roberts  
Will G Roberts  
*Mark Thomas*  
*Glyn Daniels*

Ymddiheuriad:  
Cyngorydd:  
Annwen Daniels  
*Mari Rees*

## DATGAN DIDDORDEB

**Ni fu i unrhyw Gyngorydd Datgan Diddordeb**

### 1. Cyfrifon 2016 – 2017

Bu i'r Pwyllgor drafod adroddiad BDO yn dilyn Archwiliad Allanol cyfrifon y Cyngor Tref. Mae BDO yn tynnu sylw'r Cyngor i'r gwall ar y ffurflen Datganiadau cyfrifyddu sef bod angen rhoi gwerth yr asedau i'r pynt agosaf hy. £120,263 ac nid £120,000 fel rhoddwyd ar y ffurflen

**Argymhelliad:** I dderbyn y wybodaeth a derbyn sylwadau BDO

### 2. Cyfrifon 2017 - 2018

Bu i'r Pwyllgor edrych yn fanwl ar y cyfrifon i'r dyddiad, ar gyfer y flwyddyn 2017 –2018

**Argymhelliad:** Derbyniwyd i'r cyfrifon fod yn gywir

### 3. Rhestr Asedau Cyfalaf y Cyngor Tref

Bu i'r Pwyllgor drafod y Rhestr Asedau Cyfalaf ar gyfer y flwyddyn 2016 – 2017 a'r flwyddyn 2017 – 2018.

**Argymhelliad:** I dderbyn Rhestr Asedau Cyfalaf 2016 - 2017 fel rhestr gywir ac i dderbyn bod Rhestr Asedau Cyfalaf 2017 - 2018 yn gywir i'r dyddiad.



4. **Goleuadau Nadolig**

Cafwyd gwybodaeth na fydd Llywodraeth Cymru yn debygol o roi caniatâd i ni osod y goleuadau Nadolig sydd gennym ar hyn o bryd ar unrhyw golofn goleuadau stryd ar yr A470. Cafwyd trafferthion y llynedd gyda hyn ac o ganlyniad ni osodwyd fawr iawn o'n goleuadau Nadolig gan fod ein hardal o Dalwaenydd hyd at Gwm Cynfal ar yr A470.

**Argymhelliad:** Cafwyd trafodaeth ynglŷn â'r math o oleuadau Nadolig sydd yn debyg o gael eu caniatáu ac o dderbyn cyngor gan swyddogion Cyngor Gwynedd penderfynwyd prynu tua 50 o oleuadau fel rhoddwyd ar y colofnau golau stryd yn Heol yr Eglwys ac ambell fan arall y llynedd. I holi am brisiau ar gyfer gosod motifs Nadolig ar adeiladau yn y dref ac i gael caniatâd perchnogion busnesau i osod y goleuadau ar eu hadeilad. Tybir mai isel fydd y gost o redeg y goleuadau dros gyfnod y Nadolig. I holi am bris ar gyfer cael delwedd wedi ei daflu ar y pistyll e.e. Siôn Corn dros gyfnod y Nadolig a'r Ddraig Goch a Chroes Dewi Sant yn ystod weddill y gaeaf.

PENDERFYNIAD: I dderbyn yr argymhellion gyda'r Cyngorydd Erwyn Jones yn cynnig a'r Cyngorydd Will G Roberts yn eilio.

10006/10/17 **GOLEUADAU NADOLIG**  
Trafod goleuadau ychwanegol

PENDERFYNIAD: I brynu digon o oleuadau cwmpasu ar gyfer pob colofn golau stryd o Dalwaenydd hyd at Ffordd Heulog yn Llan Ffestiniog. I brynnu motifs ar gyfer y busnesau sydd yn fodlon eu gosod ar eu hadeiladau.

10007/10/17 **YSGOLORIAETH PATAGONIA 2018**

Mae trefniadau mewn llaw ar gyfer cystadleuaeth Ysgoloriaeth Patagonia'r Cyngor Tref ar gyfer y flwyddyn 2018/9.

PENDERFYNIAD: I geisio codi ymwybyddiaeth yn yr ardal ynglŷn â'r ysgoloriaeth er mwyn cael mwy o geisiadau. Cyngor Tref Ffestiniog yw'r unig gyngor yn yr ardal i gynnig cyfle mor wych i bobl ifanc deithio i Batagonia. I symud ymlaen gydag arwyddion trefeillio ar gyfer yr A470 ar Fwlch y Gorrddinan ac yn Llan Ffestiniog ble mae'r arwydd 'croeso' ar hyn o bryd.

10008/10/17 **CYNGOR GWYNEDD**

Gorchymyn Cyngor Gwynedd Gwahardd a Chyfyngu Aros a Mannau Parcio ar y Stryd (Ardal Meirionnydd) 2017

**Ffordd Ddi-ddosbarth:-Ffordd Newydd**

Ar ochr ogleddol y ffordd o'i brif fynedfa i Ysgol Maenofferen i gyfeiriad y dwyrain at y fynedfa dros y bont droed - gyfanswm bellter o 183 metr.

**Dim aros ar unrhyw adeg**

**Ffordd Ddi-ddosbarth:-Ffordd Newydd**

Ar ochr ddeheuol y ffordd o bwynt 21 metr i'r dwyrain o'i chyffordd â'r ffordd fynedfa gefn i'r Sgwâr i gyfeiriad y dwyrain at y ffordd fynediad gefn i Dai Meirion - gyfanswm bellter o 200 metr.

**Dim aros ar unrhyw adeg**

**Ffordd Ddi-ddosbarth -Fron Fawr**

Ar ochr orllewinol y ffordd y tu allan i'r eiddo a adwaenir fel rhif 4.

**Deilydd Trwydded Breswyl Anabl yn unig**

**Ffordd Ddi-ddosbarth -Hen Dan y Manod**

Ar ochr ddwyreiniol y ffordd, gyferbyn â'r eiddo a adwaenir fel rhifau 4.

**Deilydd Trwydded Breswyl Anabl yn unig**

**Ffordd Ddi-ddosbarth -Hen Dan y Manod**

Ar ochr ddwyreiniol y ffordd, gyferbyn â ffin yr eiddo a adwaenir fel rhifau 5 a 6.

**Deilydd Trwydded Breswyl Anabl yn unig**

PENDERFYNIAD: I dderbyn y wybodaeth

10009/10/17 CYNGOR GWYNEDD

Meysydd Parcio Canol y Dref

Yn dilyn cais anffurfiol gan y Cyngor Tref, cafwyd gwybodaeth bod Cyngor Gwynedd yn fodlon ystyried ffeirio'r ddau faes parcio fel bod maes parcio Diffwys yn un arhosiad byr os caiff gais swyddogol gan y Cyngor Tref i wneud hyn.

PENDERFYNIAD: I dderbyn y wybodaeth ac i gysylltu â Chyngor Gwynedd ynglŷn â hyn.

100010/10/17 PANEL YR ADOLYGIAD ANNIBYNNOL

Mae'r Panel yr Adolygiad Annibynnol wedi cael ei sefydlu i ystyried rôl Cyngorau Cymuned a Thref yn y dyfodol. Byddent yn gwneud hynny yn ystod y flwyddyn i ddod er mwyn cyflwyno argymhellion i Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol yr hydref nesaf. Fel man cychwyn, maent yn gofyn pedwar cwestiwn craidd. Maent hefyd yn awyddus i gael darlun ehangach o farn a syniadau Cyngorau Cymuned a Thref. Gellir cysylltu drwy e-bostio: [Adolygiad.CTC.Review@gov.wales](mailto:Adolygiad.CTC.Review@gov.wales)

PENDERFYNIAD: I dderbyn y wybodaeth

100011/10/17 CYNGOR GWYNEDD

Cynnig i'r Cyngor Tref gyd weithio gyda hunaniaith ar gynllun i gynyddu'r defnydd a wneir o'r Gymraeg gan grwpiau a gweithgareddau cymunedol yn yr ardal. Byddent yn hoffi cael y cyfle i sgwrsio gyda'r Cyngor Tref am y prosiect yn fwy manwl

PENDERFYNIAD: I dderbyn y wybodaeth ac i wahodd swyddogion hunaniaith i drafod hyn ymhellach gyda'r Cyngor Tref.

100012/10/17 IECHYD

Ni chafwyd unrhyw wybodaeth newydd.

10013/10/17 PARTNERIAETH Y PARC

Ni chafwyd gwybodaeth

10014/10/17 CAEAU CHWARAE

Dim ond Cyngor Gwynedd sydd a'r hawl i godi dirwy ar berchnogion sydd yn mynd a'u cŵn ar gaeau chwarae. Mae'r ffaith bod arwyddion Cyngor Gwynedd ynglŷn â'r ddirwy ynghyd ac arwyddion y Cyngor Tref yn gallu creu dryswch ynglŷn â phwy sydd gyda chyfrifoldeb am y cae. Bu trafodaeth parthed prynu arwyddion Dim Cŵn gyda logo'r Cyngor Tref ar gyfer y caeau chwarae

PENDERFYNIAD: I dderbyn y wybodaeth ynglŷn â'r hawl i roi dirwy ond i symud ymlaen gydag arwyddion Cyngor Tref er mwyn pwysleisio nad yw cŵn i fod ar gae chwarae plant oherwydd iechyd a diogelwch plant yn chwarae.

10015/10/17 RoSPA

Bydd arolygydd o RoSPA yn archwilio'r holl offer, ffensys ac ati ar y 9 cae chwarae yn yr ardal (gan gynnwys y parc sglefrio) sy'n gyfrifoldeb i'r Cyngor Tref ym mis Hydref.

PENDERFYNIAD: I dderbyn y wybodaeth.

10016/10/17 CYNGOR GWYNEDD

Rhaglen Waith - Hydref  
B4391 Rhaeadr y Cwm Ail godi wal wedi difrodi

PENDERFYNIAD: I dderbyn y wybodaeth

10017/10/17 CYFLE I GYNGHORWYR ADRODD YN ÔL I'R CYNGOR YN DILYN EU PRESENOLDEB MEWN PWYLLGORAU ALLANOL

Cafwyd gwybodaeth bydd Cyfarfod Blynnyddol y Ganolfan Gymdeithasol yn cael ei gynnal mis nesaf.

PENDERFYNIAD: I dderbyn y wybodaeth

10018/10/17 NEWYDDION O GYNGOR GWYNEDD

Cafwyd gwybodaeth nad oes unrhyw ddefnydd perygl fel ar Grenfell Towers ar adeiladau Cyngor Gwynedd.

PENDERFYNIAD: I dderbyn y wybodaeth

10019/10/17 RHEILFFORDD FFESTINIOG

Cyfnodolyn

PENDERFYNIAD: I dderbyn y wybodaeth

Daeth y cyfarfod i ben am 9.05yh

CADEIRYDD

**CYNHELIR CYFARFOD ARFEROL NESAF Y CYNGOR TREF  
NOS IAU 9<sup>fed</sup> TACHWEDD 2017  
YN SIAMBR Y CYNGOR am 7.00 y.h.**

**CAEIR RHAGLEN AR GYFER CYFARFOD ARFEROL 9<sup>fed</sup> TACHWEDD 2017  
AR Y 2<sup>a</sup>il TACHWEDD 2017**

